Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG48118**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Rheoleiddio Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys:

- Cynigion i newid y Rheoliadau sy'n gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol;
- Rheoliadau Drafft i ychwanegu manylion cyswllt at y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau; a
- Diweddariadau i'r canllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd.

Hydref 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

© Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48118 ISBN Digidol 978-1-83577-035-1

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, a gynhaliwyd rhwng 15 Mai a 6 Awst, ynglŷn â'r canlynol:

- Rheoliadau drafft i ragnodi Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig fel gwasanaeth rheoleiddiedig o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') ac i osod gofynion ar ddarparwyr ac unigolion cyfrifol y gwasanaethau hyn;

- canllawiau statudol drafft ar gyfer Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig o dan adran 29 o Ddeddf 2016;

- cynigion i ddiwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd (y "Rheoliadau Darparwyr Gwasanaethau"), i fynd i'r afael â dau fater o fewn y fframwaith rheoleiddio;

- Rheoliadau drafft o dan adran 38 o Ddeddf 2016 i ychwanegu manylion cyswllt at y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau; a

- mân ddiwygiadau arfaethedig i'r canllawiau statudol i Ddarparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol ynghylch bodloni'r Rheoliadau Safonau Gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd (fersiwn 2, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019)[1].

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Polisi Cartrefi Gofal
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

[1] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/canllawiau-ar-gyfer-darparwyr-ac-unigolion-cyfrifol.pdf

E-bost: [CareHomeTeam@llyw.cymru](mailto:CareHomeTeam@llyw.cymru)

## Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Dogfen ymgynghori: Rheoleiddio gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig [HTML] | LLYW.CYMRU

## Cynnwys

Cynnwys ... 4

Adran 1 ... 5

1.1 Cyflwyniad ... 5

1.2 Y cyd-destun a'r sail resymegol ... 5

1.3. Yr ymgynghoriad hwn ... 7

1.4 Yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ... 8

Adran 2 ... 9

2.1.1 – Pennod 1: Cynnig i gyflwyno rheoliadau i ragnodi Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig fel gwasanaeth rheoleiddiedig o dan Ddeddf 2016 ac i osod gofynion ar ddarparwyr ac unigolion cyfrifol y gwasanaethau hyn. ... 9

2.1.2 – Pennod 2 – Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd (y "Rheoliadau Darparwyr Gwasanaethau"). ... 30

2.1.3 – Pennod 3 – Rheoliadau drafft i'w gwneud yn ofynnol i gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau ... 32

2.1.4 – Pennod 4 – Diwygiadau arfaethedig i'r canllawiau statudol i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ar fodloni'r rheoliadau safonau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd (fersiwn 2, Ebrill 2019). ... 33

Adran 3 ... 34

Y Camau Nesaf ... 34

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr ... 35

## Adran 1

### 1.1 Cyflwyniad

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") yn cynnig fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd am farn ynglŷn â phedwar cynnig penodol yn ymwneud â'r modd y caiff gwasanaethau gofal a chymorth eu rheoleiddio. Grwpiwyd y meysydd hyn yn bedwar categori o fewn yr adroddiad, fel a ganlyn:

- diffinio a rheoleiddio Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig;
- cynigion i ddiwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd, i fynd i'r afael â dau fater o fewn y fframwaith rheoleiddio;
- mandadu y dylid ychwanegu manylion cyswllt at y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau; a
- diweddariadau i'r Canllawiau Statudol ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd.

### 1.2 Y cyd-destun a'r sail resymegol

Gellir dod o hyd i fanylion llawn am gyd-destun a sail resymegol yr ymgynghoriad hwn yn y brif ddogfen ymgynghori, sydd ar gael yma. Isod, ceir crynodeb o'r pwyntiau allweddol.

Diffinio a rheoleiddio Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ei adroddiad, sef: '**Yr Ymchwiliad i Ysgolion Preswyl Cyfnod 1: Ysgolion Cerdd, Ysgolion Arbennig Preswyl Cyfnod 2: Diogelu Ysgolion Dydd ac Ysgolion Preswyl**'.

Edrychodd yr Ymchwiliad ar gwestiynau ynghylch cam-drin plant yn rhywiol mewn ysgolion arbennig preswyl yng Nghymru a Lloegr. Mae argymhellion yr Ymchwiliad yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol arbennig breswyl gael ei harolygu yn erbyn y safonau ansawdd a ddefnyddir i reoleiddio cartrefi gofal yng Nghymru.

Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, ymrwymodd Gweinidogion Cymru i reoleiddio ysgolion arbennig preswyl o dan Ddeddf 2016. Felly, aethom ati i geisio diffinio a rheoleiddio ysgolion arbennig preswyl fel gwasanaeth rheoleiddiedig newydd yn ei rinwedd ei hun – Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig.

Roedd y cynnig i reoleiddio Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig o dan Ddeddf 2016 a sefydlu'r fframwaith rheoleiddio yn cynnwys rheoliadau annibynnol newydd, diwygio rheoliadau presennol a chanllawiau statudol pwrpasol.

Cynigion i fynd i'r afael â dau fater o fewn y fframwaith rheoleiddio

Tynnodd yr ymgynghoriad sylw at ddau fater yn ymwneud â gweithredu'r fframwaith rheoleiddio, sef:

- cofrestru gwasanaethau cartrefi gofal pedair ystafell wely (gyda'r fantais o osgoi'r gofynion ychwanegol yn Rhan 13 o'r Rheoliadau Darparwyr Gwasanaethau, fel yr angen i gael cyfleusterau en-suite) sy'n cael eu haddasu'n ddiweddarach i ychwanegu ystafelloedd gwely ychwanegol; ac

- ymddangosiad gwasanaethau gofal canolraddol a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol sy'n dod o fewn y diffiniad cyfreithiol o wasanaeth cartref gofal, ond sy'n debycach i wasanaeth byw â chymorth byrdymor.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig y gellid datrys y materion hyn trwy ddiwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd (y "Rheoliadau Darparwyr Gwasanaethau").

Mandadu y dylid ychwanegu manylion cyswllt at y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau

Mae adran 38 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal cofrestr o ddarparwyr gwasanaethau. Mae'r gofrestr hon yn bwydo cyfeiriadur ar-lein cyhoeddus Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n darparu gwybodaeth allweddol am wasanaethau rheoleiddiedig yng Nghymru i'r cyhoedd.

Rydym wedi canfod bwlch yn yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y gofrestr ac yn y cyfeiriadur cyhoeddus gan nad yw'n cynnwys rhif ffôn a chyfeiriad e-bost ar gyfer pob gwasanaeth. Ar hyn o bryd, dim ond rhif ffôn y gwasanaeth a gyhoeddir yng nghyfeiriadur cyhoeddus Arolygiaeth Gofal Cymru, gyda chaniatâd y darparwr. Nid yw pob darparwr wedi rhoi caniatâd i gyhoeddi'r wybodaeth hon, ac mae hyn yn arwain at fylchau yn yr wybodaeth a ddarperir.

Fe wnaethom ymgynghori ynglŷn â'r Rheoliadau drafft er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr roi cyfeiriad e-bost a rhif ffôn i Arolygiaeth Gofal Cymru, sef manylion y byddai'n rhaid i Arolygiaeth Gofal Cymru eu cyhoeddi ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau, ac er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau roi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru pe bai'r wybodaeth hon yn newid.

Diweddariadau i'r canllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd

Mae'r canllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd yn nodi sut y gall darparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol gydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Darparwyr

Gwasanaethau. Cyhoeddwyd y canllawiau i ddechrau ym mis Ebrill 2017 a chyflwynwyd mân ddiwygiadau ym mis Ebrill 2019.

Rydym o'r farn ei bod yn amserol inni adolygu'r ddogfen er mwyn sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn addas i'r diben. Gellir dod o hyd i fanylion llawn am y newidiadau arfaethedig yn y brif ddogfen ymgynghori yma.

### 1.3. Yr ymgynghoriad hwn

Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 15 Mai a 6 Awst. Estynnwyd gwahoddiad i ymatebwyr gyflwyno'u barn trwy ddefnyddio ffurflen ar-lein, trwy e-bost neu drwy'r post. Hefyd, lluniwyd fersiwn hawdd ei deall o'r ddogfen ymgynghori. Anfonwyd hysbysiad ynglŷn â'r ymgynghoriad trwy e-bost at amrywiaeth o randdeiliaid a chanddynt fuddiant yn y cynigion. Dyma'r rhanddeiliaid o dan sylw:

- Aelodau Arweiniol Awdurdodau Lleol dros Ofal Cymdeithasol
- Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
- Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cyfarwyddwyr Addysg
- Penaethiaid Gwasanaethau Plant
- Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Darparwyr ysgolion arbennig preswyl
- Fforwm Gofal Cymru
- Y Fforwm Darparwyr Cenedlaethol
- Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Cadeiryddion y GIG
- Prif Weithredwyr y GIG
- Ysgrifenyddiaethau Byrddau'r GIG
- Ffederasiwn GIG Cymru
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Llais (Corff Llais y Dinesydd)
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Archwilio Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Plant yng Nghymru
- Y sefydliad V for Life
- Cadeiryddion Gweithgorau Tasgluoedd Hawliau Anabledd

- Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio
- Cydgysylltwyr Diogelu Plant
- Cydgysylltwyr Diogelu Oedolion
- Swyddogion Cyswllt yr Heddlu
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu
- Prif Gwnstabliaid
- Rhwydwaith Diogelu'r GIG
- Y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel

Tynnwyd sylw at yr ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Hefyd, sefydlwyd grŵp rhanddeiliaid i ystyried rheoleiddio ysgolion arbennig preswyl. Roedd y grŵp rhanddeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o ysgolion arbennig preswyl Cymru ynghyd â chynrychiolwyr o adrannau perthnasol awdurdodau lleol, yn cynnwys addysg a gwasanaethau plant. Cyfarfu'r grŵp bedair gwaith cyn yr ymgynghoriad ac unwaith yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn trafod y cynigion a sut y gellid cynorthwyo unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u rhieni i gyfrannu at yr ymgynghoriad.

**1.4 Yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad**

Derbyniodd Llywodraeth Cymru 25 o ymatebion cyflawni, dau ymateb cyflawn heb destun na gwybodaeth a 23 o ymatebion anghyflawn gyda dim, neu fawr ddim, testun na gwybodaeth. Mae'r dadansoddiad o'r ymatebion wedi'i seilio ar y 25 ymateb cyflawn. Cyflwynwyd tri o'r ymatebion hyn gan unigolion, cyflwynwyd 14 ohonynt ar ran sefydliadau ac ni ddywedodd wyth ohonynt a oeddynt yn ymateb fel unigolyn ynteu ar ran sefydliad. Isod, rhestrir y sefydliadau a ymatebodd (ac na ddywedasant eu bod yn dymuno aros yn ddienw):

- Tîm Partneriaeth Ranbarthol Gwent
- Anabledd Dysgu Cymru
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Estyn
- Cyngor Abertawe
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Cartrefi Cymunedol Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru

## Adran 2

### 2.1 Crynodeb o’r ymatebion a dderbyniwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru

### 2.1.1 – Pennod 1: Cynnig i gyflwyno rheoliadau i ragnodi Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig fel gwasanaeth rheoleiddiedig o dan Ddeddf 2016 ac i osod gofynion ar ddarparwyr ac unigolion cyfrifol y gwasanaethau hyn.

Y Rheoliadau hyn yw *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023* a *Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2023*, yn ôl eu trefn.

**Cwestiwn 1: A yw Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig wedi’u diffinio’n glir ac yn briodol?**

**Crynodeb o’r ymatebion**

Roedd 13 o ymatebwyr yn cytuno neu’n tueddu i gytuno bod y diffiniad arfaethedig o ‘Wasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig’ yn glir ac yn briodol. Nid ymatebodd 12 o ymatebwyr i’r cwestiwn hwn.

Mynegodd un ymatebydd bryder y gallai’r diffiniad gynnwys yn anfwriadol ysgolion preswyl annibynnol prif ffrwd sy’n cynnig rhai darpariaethau dysgu ychwanegol. Yn ôl ymatebydd arall, nid oedd y term “Ysgol Arbennig” yn briodol, ac awgrymodd y byddai “Gwasanaethau Preswyl Addysg Arbenigol” neu “Gwasanaethau Preswyl Addysgol Anghenion Arbennig” yn well. Yn ôl un ymateb, efallai y byddai darparwyr yn elwa ar gael rhagor o fanylion ac enghreifftiau o’r hyn sy’n cyfateb i ysgol arbennig breswyl.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mewn perthynas â’r diffiniad o Wasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig a chwmpas y rheoliadau, nid ydym eisiau cynnwys ysgolion preswyl annibynnol prif ffrwd sy’n cynnig darpariaethau dysgu ychwanegol. Ar ôl ystyried mwy ar y mater, cytunwn y gellir diwygio’r diffiniad er mwyn cynnig gwell eglurder a sicrwydd cyfreithiol. Bwriadwn ddiwygio’r diffiniad o ‘ysgol arbennig’ er mwyn i’r diffiniad olygu ysgolion lle caiff yr holl ddarpariaeth neu’r rhan fwyaf o’r ddarpariaeth ei threfnu’n arbennig er mwyn cynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol i unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Rydym wedi ystyried y derminoleg wahanol a awgrymwyd, ond rydym o’r farn bod ‘Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig’ yn cynnig gwell eglurder; felly, nid ydym yn bwriadu newid y derminoleg.

Mae Canllawiau Cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru yn cynnig rhagor o gymorth i ddarparwyr ynglŷn â pha weithgareddau sy’n cyfateb i wasanaethau rheoleiddiedig a’r modd y gallant gofrestru. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddaru cyn i’r Rheoliadau ddod i rym er mwyn cynnwys y Gwasanaeth Preswyl Ysgolion Arbennig newydd.

Hefyd, bwriadwn gyflwyno dau newid arall yn ymwneud â'r modd y geiriwyd y diffiniadau yn Rhan 1. Mae un newid yn adlewyrchu'r ffaith y gall Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig ddarparu gwasanaeth i unigolion hyd at 19 oed nad ydynt yn dod o fewn y diffiniad presennol o "blentyn". Mae'r ail newid yn cael gwared â'r geiriau "corff GIG" a gynhwysir yn y diffiniad o "[g]omisiynydd y gwasanaeth" oherwydd ni fydd cyrff y GIG yn comisiynu'r gwasanaethau hyn ac o'r herwydd mae'r geiriau hyn yn ddiangen.

**Cwestiwn 2: A yw'r gofynion yn Rhan 2 o Reoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2023 ("y Rheoliadau drafft") yn iawn i ddarparwyr Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig? A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut y gallant gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?**

Mae rhan 2 yn ymdrin â'r gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y ffordd y darperir y gwasanaeth. Mae'n cynnwys gofynion yn ymwneud â'r datganiad o ddiben, trefniadau ar gyfer monitro a gwella, y cymorth y dylid ei roi i'r unigolyn cyfrifol, y camau y dylid eu cymryd i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth, a'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol iddynt fod ar waith.

**Crynodeb o'r ymatebion:**

Roedd 12 o ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r gofynion yn Rhan 2 o'r Rheoliadau drafft. Nid ymatebodd 13 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Mynegodd un ymatebydd bryder ynglŷn â'r broses gofrestru, gan awgrymu y gallai'r gofynion newydd ar ddarparwyr gwasanaethau leihau capasiti a datgymell darparwyr newydd rhag ymuno â'r farchnad.

Dywedodd un ymatebydd fod angen i bolisïau a gweithdrefnau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig gyd-fynd â pholisïau'r brif ysgol, oherwydd efallai y byddai'r staff yn gweithio ar draws y ddwy ddarpariaeth. Mae'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r grŵp rhanddeiliaid yn awgrymu bod angen egluro'r berthynas a'r cysylltiadau rhwng y gwasanaeth preswyl a'r ysgol.

Pwysleisiodd un ymatebydd ei bod hi'n bwysig i blant gael mynediad at eiriolwr annibynnol a allai ymweld â nhw a diwallu eu hanghenion cyfathrebu cyffredinol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd y grŵp rhanddeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r ysgolion arbennig preswyl sy'n bodoli eisoes, a thrafodwyd y cynigion yn fanwl. Ein bwriad yw cynnwys cyfnodau pontio er mwyn rhoi digon o amser i ddarparwyr gwasanaethau gofrestru, ynghyd â chofrestru rheolwyr a staff. Mae'r holl awdurdodau lleol sydd ag ysgolion arbennig preswyl wedi cofrestru fel darparwyr gwasanaethau gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, felly yr unig beth y bydd yn rhaid ei wneud yw addasu eu cofrestriad er mwyn cynnwys Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig. Mae'r gofynion a roddir ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol yn briodol, yn gymesur ac yn gyson â gwasanaethau rheoleiddiedig eraill.

Rydym wedi ystyried yr adborth ynglŷn â'r angen i egluro'r cysylltiadau rhwng y gwasanaeth preswyl a'r ysgol. Bwriadwn ymdrin â'r mater hwn trwy ddiweddaru Atodlen 2 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 ("y Rheoliadau Cofrestru") trwy gyfrwng Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) 2023. Mae Atodlen 2 yn rhestru'r wybodaeth y dylid ei chynnwys yn y datganiad o ddiben.

Bydd y diwygiad hwn yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cynnwys disgrifiad o'r trefniadau gweithio rhwng y lleoliad addysg a'r gwasanaeth preswyl. Bydd dogfen ganllawiau Arolygiaeth Gofal Cymru – sef 'Canllaw ar gyfer llunio Datganiad o Ddiben' – yn cynnig enghreifftiau o feysydd perthnasol y dylid eu cynnwys yn y datganiad o ddiben lle disgrifir y berthynas weithio rhwng y lleoliad addysg a'r gwasanaeth preswyl, megis rhannu polisïau a gweithdrefnau, staff, safle, cyfleusterau a chyfarpar, a chofnodion. Hefyd, bwriadwn gynnwys eglurhad ychwanegol yn y canllawiau statudol ynglŷn â rheoliad 3 (Gofynion sy'n ymwneud â'r datganiad o ddiben).

Mae'r canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr sicrhau bod unigolion yn cael gwybod am eu hawl i gael gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol perthnasol a'u bod yn cael eu cynorthwyo i gael gafael ar y gwasanaethau hynny.

**Cwestiwn 3: A yw'r gofynion yn Rhan 3 o'r Rheoliadau drafft yn iawn i ddarparwyr Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig? A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut y gallant gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?**

Mae rhan 3 yn ymdrin â'r gofynion mewn perthynas â'r camau sydd i'w cymryd cyn i ddarparwyr gwasanaethau gytuno i ddarparu gofal a chymorth i unigolion. Ni ddylai darparwyr gwasanaethau gytuno i ddarparu gofal a chymorth oni bai eu bod wedi pennu bod y gwasanaeth yn addas i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Nodir y camau y bydd yn rhaid eu cymryd a'r materion y bydd yn rhaid eu hystyried wrth wneud y penderfyniad hwn. Pan na fo unrhyw gynllun gofal a chymorth ar waith gan yr awdurdod lleol, rhaid mynd ati hefyd i asesu anghenion yr unigolyn.

### Crynodeb o'r ymatebion

Roedd 11 o ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r gofynion yn Rhan 3 o'r Rheoliadau drafft. Roedd dau yn tueddu i anghytuno. Nid ymatebodd 12 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r cynlluniau a'r asesiadau a ystyrir wrth benderfynu ar addasrwydd y gwasanaeth gynnwys cynlluniau addysg.

Yn ôl un ymatebydd a oedd yn tueddu i anghytuno, gan y byddai'r disgyblion yn adnabod y staff eisoes (ar ôl gweithio gyda'r unigolion yn yr ysgol), efallai na fyddai proses dderbyn mor fanwl yn addas i bob gwasanaeth.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cytuno y dylid ystyried cynlluniau addysg wrth benderfynu ar addasrwydd y gwasanaeth a bwriadwn ddiwygio geiriad rheoliad 10 (Addasrwydd y gwasanaeth) yn unol â hynny.

Mae’r rheoliadau’n gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau. Mae’r camau y dylid eu cymryd cyn cytuno i ddarparu gwasanaeth gofal a chymorth yn briodol ac yn gymesur. Mae’n bosibl y bydd y gofal a’r cymorth y bydd yr unigolyn eu hangen yn amrywio rhwng y lleoliad addysg a’r gwasanaeth preswyl, ac mae’n bosibl na ellir cyflogi’r un staff yn y ddau leoliad bob amser. Nid ydym yn bwriadu diwygio’r Rheoliadau drafft na’r canllawiau statudol.

**Cwestiwn 4: A yw’r gofynion yn Rhan 4 o’r Rheoliadau drafft yn iawn i ddarparwyr Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig? A yw’r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut y gallant gydymffurfio â’r gofynion yn y rhan hon?**

Mae Rhan 4 yn ymdrin â’r camau i’w cymryd unwaith y bydd darparwr y gwasanaeth wedi cytuno i ddarparu gofal a chymorth i unigolyn. Cyn y gellir rhoi darpariaeth o’r fath ar waith, rhaid i’r darparwr baratoi cynllun personol cychwynnol a fydd, ymhlith pethau eraill, yn pennu sut y bydd anghenion yr unigolyn yn cael eu diwallu o ddydd i ddydd.

O fewn 7 diwrnod i roi’r ddarpariaeth ar waith, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gynnal asesiad manwl o’r ffordd orau o ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. Yna, bydd yr asesiad hwn yn arwain at adolygu’r cynllun personol cychwynnol – rhywbeth a fydd, fel arfer, yn arwain at baratoi cynllun mwy cynhwysfawr. Hefyd, mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer adolygu cynlluniau personol, ynghyd â chadw a rhannu cofnodion o’r cynllun personol.

### Crynodeb o’r ymatebion

Roedd 11 o ymatebwyr yn cytuno neu’n tueddu i gytuno â’r gofynion yn Rhan 4 o’r Rheoliadau drafft. Roedd un unigolyn yn tueddu i anghytuno ac nid ymatebodd 13 o ymatebwyr i’r cwestiwn hwn.

Gofynnodd dau ymatebydd am gael rhagor o bwyslais ar gydgynhyrchu cynlluniau personol gydag unigolion yn y gwasanaeth, gan ofyn hefyd am gael diffiniad clir o’r term “cydgynhyrchu”. Gofynnodd un ymatebydd am gael rhagor o fanylion yn y canllawiau statudol ynglŷn â’r modd y dylid rhoi cynlluniau personol i unigolion, ac ym mha fformat.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae’r canllawiau statudol eisoes yn cynnwys sawl cyfeiriad at gydgynhyrchu, mewn perthynas ag asesiad y darparwr ac wrth ddatblygu ac adolygu’r cynllun personol. Hefyd, mae’r canllawiau statudol yn nodi y dylid rhoi copi o’r cynllun personol i’r unigolyn sy’n derbyn y gwasanaeth, mewn iaith a fformat sy’n briodol i’w anghenion, ei oedran a lefel ei ddealltwriaeth. Nid ydym yn bwriadu cyflwyno diffiniad. Ystyriwn fod lefel y manylion yn y Rheoliadau drafft a’r canllawiau yn ddigonol ac yn gyson â’r gofynion ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig eraill.

Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi datblygu adnodd yn ymwneud â chofnodi barn plant ag anableddau dysgu lluosog, sef *Dull Gweithredu ar sail Hawliau Plant tuag at Anghenion Dysgu Ychwanegol* – efallai y bydd yr adnodd hwn o fudd i ddarparwyr gwasanaethau wrth fynd ati i gydgynhyrchu cynlluniau personol. Bwriadwn gynnwys dolen sy'n arwain at wefan y Comisiynydd Plant yn adran 'dolenni defnyddiol' y canllawiau statudol.

**Cwestiwn 5: A yw'r gofynion yn Rhan 5 o'r Rheoliadau drafft yn iawn i ddarparwyr Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig? A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut y gallant gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?**

Mae Rhan 5 yn ymdrin â gwybodaeth y mae'n rhaid ei chyflwyno i unigolion ynglŷn â rhoi'r ddarpariaeth gofal a chymorth ar waith. Mae'n cynnwys yr angen i ddarparu canllaw ysgrifenedig ac mae'n pennu gofynion manwl ynglŷn â'r canllaw hwn, o ran ei gynnwys a'i fformat ac ati. Mae Rheoliad 16 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau roi copi o'r cytundeb gwasanaeth i'r rhai y mae ganddynt gontract gyda nhw.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 11 o ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r gofynion yn Rhan 5. Roedd un ymatebydd yn tueddu i anghytuno a dewisodd 13 o ymatebwyr beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

Nodwyd mewn nifer o sylwadau ei bod yn bwysig i'r canllaw ysgrifenedig fod yn hygyrch i'r unigolion a'r rhieni. Awgrymodd dau ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol cael templed ac enghreifftiau o arfer da.

Yn ôl un ymatebydd, roedd angen gormod o wybodaeth yn y canllaw, ac fe allai hynny droi'r ymarfer yn ymarfer "tic yn y blwch". Dywedodd yr ymatebydd hwn y gallai swm yr wybodaeth lethu'r rhieni a'r plant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym o'r farn bod lefel y manylion yn y Rheoliadau drafft a'r canllawiau statudol mewn perthynas â'r canllaw ysgrifenedig yn briodol ac yn gyson â'r gofynion ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig eraill.

Mae rheoliad drafft 15 eisoes yn nodi bod yn rhaid i'r canllaw fod mewn iaith ac arddull briodol, a bod yn rhaid i'r fformat a'r modd y'i cyflwynir fod yn briodol hefyd, gan ystyried y datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod yr holl unigolion yn cael unrhyw gymorth angenrheidiol er mwyn eu galluogi i ddeall yr wybodaeth yn y canllaw.

Ar wahân i'r ymgynghoriad hwn, bwriadwn ddiwygio geiriad rheoliad drafft 16 (Cytundeb gwasanaeth) er mwyn datgan yn glir y dylid rhoi copi o'r cytundeb gwasanaeth i'r unigolion a'u rhieni.

**Cwestiwn 6: A yw'r gofynion yn Rhan 6 o'r Rheoliadau drafft yn iawn i ddarparwyr Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig? A yw'r canllawiau**

**statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut y gallant gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?**

Mae Rhan 6 yn cynnwys gofynion yn ymwneud â safon y gofal a'r cymorth a ddarperir a mynediad at wasanaethau iechyd. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys gofynion cyffredinol yn ogystal â gofynion mwy manwl yn ymwneud â pharhad gofal, darparu gwybodaeth, diwallu anghenion iaith a chyfathrebu'r unigolyn, trin unigolion gyda pharch a sensitifrwydd, a chynorthwyo unigolion i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 10 o ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r gofynion yn Rhan 6. Roedd un ymatebydd yn tueddu i anghytuno ac roedd un yn anghytuno. Dewisodd 13 o ymatebwyr beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

Fe wnaeth Comisiynydd Plant Cymru roi tic yn y blwch "anghytuno" ar gyfer yr adran hon. Er bod y Comisiynydd yn croesawu'r ffaith bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau wedi'u cynnwys yn y canllawiau statudol ar gyfer Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig, dywedodd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar hawliau plant a hawliau pobl anabl drwy'r holl ddogfen. Hefyd, dylai'r canllawiau statudol gysylltu ag adnoddau ymarferol a all hyrwyddo hawliau a chynorthwyo pobl i ddeall y confensiynau a'r modd y gellir eu rhoi ar waith yn ymarferol.

Dywedodd ymatebydd arall y dylai rheoliad drafft 17 (Safonau gofal a chymorth – gofynion cyffredinol) fod yn fwy penodol o ran yr angen i ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid rhoi gwybod i wasanaethau iechyd beth yw eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Rheoliadau drafft, er mwyn i blant allu cael y gofal iechyd angenrheidiol tra byddant yn y gwasanaeth.

Cyfeiriodd dau ymatebydd at eglurder y gofynion yn rheoliad drafft 20 (Iaith a chyfathrebu). Dywedodd un ymatebydd y gellid cryfhau mwy fyth ar y canllawiau statudol trwy atgyfeirio at arbenigwyr oddi mewn i'r lleoliad addysg – arbenigwyr sydd, efallai, wedi mynd ati eisoes i lunio cynlluniau cyfathrebu gwerthfawr i gynorthwyo disgyblion. Awgrymodd yr ymatebydd arall y dylai pwysigrwydd ymarfer cynhwysol a grymusol fod yn thema trwy'r canllawiau, ac y dylai'r canllawiau gynnwys dolenni'n arwain at adnoddau sy'n anelu'n benodol at hyrwyddo cyfranogiad plant.

Tynnodd y grŵp rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod y gofyniad yn rheoliad drafft 22 (Mynediad at wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill), lle nodir y dylai darparwyr gwasanaethau ddynodi gweithiwr cyswllt ar gyfer pob plentyn, yn llai perthnasol i Wasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig. Yn ymarferol, mae ysgolion yn pennu eu trefniadau eu hunain ar gyfer gweithwyr cyswllt.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Caiff hawliau plant eu diogelu yng nghyfraith Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r mesur yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi ystyriaeth ddyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu neu adolygu deddfwriaethau a pholisïau. Datblygwyd yr holl ofynion yn y Rheoliadau drafft a'r canllawiau statudol gyda hawliau plant a phobl anabl mewn golwg. Wrth ddatblygu'r Rheoliadau drafft a'r canllawiau statudol, aethom ati i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiad Cydraddoldeb. Bydd crynodeb o'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi ceisio cyngor ynglŷn â chynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn y canllawiau statudol. Mae'r DU yn un o lofnodwyr y Confensiwn. Mae'r Confensiwn yn pennu hawliau datganiadol sy'n wahanol i gyfreithiau sy'n rhoi pwerau y gellir eu gorfodi fel rhan o system gyfreithiol. Caiff rhai o'r hawliau a'r mesurau diogelu a nodir yn y Confensiwn eu cynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Bwriad y canllawiau statudol yw egluro a symleiddio'r gofynion a nodir yn y rheoliadau. Bwriadwn gael gwared â'r cyfeiriad.

Nid yw'r canllawiau statudol yn ailadrodd deddfwriaethau, adnoddau ymarferol na chanllawiau penodol ac nid ydynt ychwaith yn cynnwys dolenni sy'n arwain at bethau o'r fath, oherwydd bydd y pethau hynny'n siŵr o ddyddio. Disgwylir i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddeddfwriaethau perthnasol a chanllawiau arferion da a all eu cynorthwyo i redeg eu gwasanaeth.

Nid yw'r Rheoliadau drafft yn gosod gofynion ar gyrff iechyd na gwasanaethau eraill.

Byddwn yn ystyried a oes modd cryfhau'r canllawiau statudol ar gyfer rheoliad drafft 20 (Iaith a chyfathrebu) neu mewn mannau eraill trwy gynnwys cyfeiriad at gynlluniau cyfathrebu a baratowyd gan y lleoliad addysg.

Bwriadwn ddiwygio rheoliad drafft 22(2) er mwyn cael gwared â'r gofyniad i ddarparwyr gwasanaethau ddynodi aelod o staff yn weithiwr cyswllt ar gyfer pob unigolyn. Y bwriad yw y bydd modd i ddarparwyr ddefnyddio'u disgresiwn i benderfynu ar yr hyn sydd orau i'r gwasanaeth ac i'r unigolion sy'n aros yn y gwasanaeth. Bydd unigolion sy'n aros yn y gwasanaeth yn cyfateb i ddisgyblion yn yr ysgol ac ni fyddant yn preswylio'n llawn-amser yn y gwasanaeth.

**Cwestiwn 7: A yw'r gofynion yn Rhan 7 o'r Rheoliadau drafft yn iawn i ddarparwyr Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig a'r personau sy'n defnyddio'r gwasanaeth? A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut y gallant gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?**

Mae Rhan 7 yn cynnwys gofynion penodol o ran sicrhau bod unigolion yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag cam-drin, esgeulustod a thriniaeth amhriodol. Yn ogystal â mynnu y dylid rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith mewn perthynas â diogelu a defnydd priodol o reolaeth ac ataliaeth, mae'r rheoliadau yn y Rhan hon yn gosod gofynion penodol yn ymwneud â'r camau y dylid eu cymryd os ceir honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 12 o ymatebwyr yn cytuno neu’n tueddu i gytuno â’r gofynion yn Rhan 7. Roedd un ymatebydd yn anghytuno, cyflwynodd un ymatebydd sylwadau heb roi tic mewn unrhyw flwch, a dewisodd 11 o ymatebwyr beidio ag ymateb i’r cwestiwn hwn.

Cafwyd nifer o ymatebion manwl a defnyddiol. Roedd y prif themâu’n ymwneud â defnydd priodol o reolaeth, ataliaeth ac arferion cyfyngol, neilltuaeth, hysbysu rhieni, terminoleg ac iaith, rheoli ymddygiad cadarnhaol, Gweithdrefnau Diogelu Cymru, y Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol, Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, dolenni’n arwain at wefan Swyddfa’r Comisiynydd Plant, awgrymiadau ynglŷn â gofynion manwl ar gyfer cadw cofnodion, ac eiriolaeth annibynnol.

Argymhellodd Comisiynydd Plant Cymru y dylid cynnwys dolen sy’n arwain at swyddfa’r Comisiynydd Plant yn y canllawiau statudol er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn ymwybodol o’r gwasanaeth Ymchwilio a Chyngor cyfrinachol a’r pwerau i gynorthwyo chwythwyr chwiban.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym wedi ystyried yr adborth a’r awgrymiadau ystyriol a chynhwysfawr a gyflwynodd yr ymatebwyr.

Rydym yn bwriadu diwygio’r Rheoliadau drafft er mwyn sicrhau y bydd y person â chyfrifoldeb rhiant/cynrychiolydd yr unigolyn yn cael ei hysbysu ynglŷn â dyddiad ac amgylchiadau unrhyw fesurau rheoli, atal neu ddisgyblu a ddefnyddir ar yr unigolyn (yn cynnwys mewn achosion pan fydd yr unigolyn dros 18 oed). Hefyd, byddwn yn ystyried a oes angen eglurhad pellach yn y Rheoliadau drafft mewn perthynas â materion eraill y dylid hysbysu’r rhieni a’r cynrychiolwyr yn eu cylch.

Byddwn yn adolygu’r iaith a ddefnyddir yn y canllawiau statudol er mwyn sicrhau ei bod yn glir, a byddwn yn ystyried a ellir ei chryfhau mewn perthynas â ‘dull sy’n canolbwyntio ar unigolion’ wrth ategu ymddygiad cadarnhaol.

Rhaid i ddarparwyr weithredu bob amser yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a’r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, a hefyd yn unol â Chod Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Chod Ymarfer ategol y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Hefyd, mae’r Rheoliadau drafft yn mynnu na ddylid amddifadu unigolion o’u rhyddid at ddibenion derbyn gofal a chymorth, heb awdurdod cyfreithlon. Felly, nid ydym yn bwriadu cynnwys gofyniad ychwanegol i hysbysu plant a phobl ifanc ynglŷn â natur y Gorchymyn Amddifadu o Ryddid. Bydd cynllun personol yr unigolyn yn cynnwys manylion yn ymwneud ag unrhyw gamau ar gyfer pennu risgiau i lesiant yr unigolyn a sut y bydd hyn oll yn cael ei reoli.

Byddwn yn cynnwys dolen sy’n arwain at wefan y Comisiynydd Plant yn adran ‘Dolenni Defnyddiol’ y canllawiau statudol ar gyfer Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig a’r canllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd. Mae adran ‘dolenni defnyddiol’ y canllawiau statudol eisoes yn cynnwys dolen sy’n arwain at wefan Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Nid ydym yn bwriadu cynnwys dolen sy’n arwain at y Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol yn y canllawiau statudol – nid yw’r Fframwaith hwn yn statudol ac mae gan

ddarparwyr gwasanaethau hyblygrwydd i benderfynu sut y gallant gydymffurfio orau â'r gofynion yn y rheoliadau. Yn fwy cyffredinol, nid ydym yn bwriadu cynnwys yn y ddogfen ddolenni sy'n arwain at ganllawiau neu ddeddfwriaethau penodol, oherwydd bydd y canllawiau a'r deddfwriaethau hynny yn siŵr o ddyddio.

Nid ydym yn bwriadu cynnwys gofynion manylach mewn perthynas â'r gofyniad i gofnodi dyddiad ac amgylchiadau unrhyw fesurau rheoli neu atal a ddefnyddir ar unigolion. Mater gweithredol i ddarparwyr gwasanaethau yw hwn, a dylai fod yn rhan o'u polisi ar ddefnyddio rheolaeth neu ataliaeth.

Mae'r canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr sicrhau bod unigolion yn cael gwybod am eu hawl i gael gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol a'u bod yn cael eu cynorthwyo i gael gafael ar y gwasanaethau hynny.

**Cwestiwn 8: A yw'r gofynion yn Rhan 8 o'r Rheoliadau drafft yn iawn i ddarparwyr Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig? A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut y gallant gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?**

Mae Rhan 8 yn nodi'r gofynion o ran staffio. Mae'n cynnwys gofynion cyffredinol yn ymwneud â defnyddio niferoedd digonol o staff a gofynion yn ymwneud ag addasrwydd staff, sut y dylid cefnogi a datblygu staff, a gweithdrefnau disgyblu.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 12 o ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r gofynion yn Rhan 8. Dewisodd 13 o ymatebwyr beidio ag ymateb i'r cwestiwn hwn.

Cyflwynodd un ymatebydd sylwadau ynghylch rheoliad drafft 31(10)(b), sy'n eithrio gweithwyr a gyflogir gan y gwasanaeth (ar wahân i reolwyr) rhag gorfod cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru os ydynt yn weithwyr proffesiynol cofrestredig ("proffesiynolyn cofrestredig") yn barod. Ymddengys fod y sylw yn tybio na fyddai'n rhaid i rywun sydd wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Gofynnodd Cyngor y Gweithlu Addysg am gael cyfeiriad penodol yn y canllawiau statudol at rôl reoleiddio'r Cyngor mewn perthynas â'r gweithlu addysg a'r ffaith bod darparwyr gwasanaethau yn rhoi gwybod i'r Cyngor os ystyrir nad yw gweithwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor a chyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn addas i weithio yn y gwasanaeth mwyach.

Cododd y grŵp rhanddeiliaid bryderon ynglŷn ag effaith bosibl y gofynion cofrestru ar staff a gyflogir gan yr ysgol arbennig i fynd i'r afael â sifftiau achlysurol yn y gwasanaeth preswyl. Y pryder oedd bod yna bosibilrwydd na fyddai'r gweithwyr hyn yn dymuno gweithio sifftiau achlysurol pe bai'n rhaid iddynt gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, ac y byddent o'r farn bod y gofynion o ran cymwysterau a datblygiad proffesiynol parhaus yn rhy feichus. Pwysleisiodd darparwyr ysgolion arbennig preswyl eu dibyniaeth ar staff yr ysgol – staff sydd, yn eu tyb nhw, yn well

na staff asiantaeth ar gyfer mynd i'r afael â sifftiau achlysurol, gan eu bod eisoes yn adnabod yr unigolion sy'n aros yn y gwasanaeth.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym o'r farn bod yr ymatebydd wedi camddehongli'r eithriad yn rheoliad 31(10)(b). Dim ond i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal y mae'r eithriad ar gyfer gweithwyr proffesiynol cofrestredig yn berthnasol. Yn achos pawb a gyflogir gan y Gwasanaeth Preswyl Ysgolion Arbennig (naill ai fel cyflogai neu weithiwr) neu a gyflogir o dan gontract ar gyfer gwasanaethau, ac eithrio fel rheolwr, ac sy'n darparu gofal a chymorth i unigolion yn y gwasanaeth, rhaid iddynt gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os ydynt wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

Mae darparwyr gwasanaethau'n gyfrifol am wneud atgyfeiriadau at y cyrff rheoleiddio a phroffesiynol perthnasol, yn cynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, os oes amheuaeth ynglŷn ag 'addasrwydd i ymarfer' unrhyw un sy'n gweithio i'r gwasanaeth. Y cyflogwr hefyd sy'n gyfrifol am roi gwybod i Gyngor y Gweithlu Addysg am faterion perthnasol yn ymwneud â'r staff. Pennir hyn yn Rhan 7 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015. Gellir dod o hyd i ragor o ganllawiau yn Gweithdrefnau ar gyfer adrodd ar achosion o gamymddwyn ac anghymwystra yn y gweithlu addysg | LLYW.CYMRU. Rydym o'r farn yr ymdrinnir â'r mater hwn yn y rheoliadau ac nid ydym yn bwriadu diwygio'r canllawiau statudol.

Mae Adran 181 o Ddeddf 2016 yn ymdrin â rhannu gwybodaeth a chydweithredu rhwng cyrff rheoleiddio ac awdurdodau perthnasol. Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn awdurdod perthnasol (adran 177 o Ddeddf 2016).

Eisoes, mae'r canllawiau statudol drafft yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod proses ar waith i wirio bod gan y staff gofrestriad priodol a chyfredol â rheoleiddiwr proffesiynol, pan fo angen. Nid ydym yn bwriadu diwygio'r canllawiau statudol er mwyn cyfeirio'n benodol at Gyngor y Gweithlu Addysg, oherwydd nid creu rhestr hollgynhwysfawr yw ein bwriad.

Rydym wedi ymgysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru i drafod y gofynion o ran cofrestru a chymwysterau i weithwyr achlysurol. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi ymestyn y cyfnod cofrestru i weithwyr gofal cymdeithasol ar gyfer ennill cymhwyster, o dair blynedd i chwe blynedd. Gall yr holl weithwyr gofrestru trwy ddefnyddio llwybr asesu'r cyflogwr, a bydd ganddynt hyd at chwe blynedd i ennill cymhwyster. Mae'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus, sef 15 awr y flwyddyn, yn eang ac yn debygol o gael eu cyflawni trwy fynd i'r afael â hyfforddiant a gynhelir fel rhan o rôl gweithwyr achlysurol yn yr ysgol. Ystyriwn fod hyn yn ddull cymesur a fydd yn sicrhau cydraddoldeb â gweithwyr gofal iechyd mewn gwasanaethau rheoleiddiedig eraill. Nid ydym yn bwriadu diwygio'r Rheoliadau drafft er mwyn eithrio gweithwyr achlysurol rhag y gofynion hyn.

Mae'r Rheoliadau drafft yn mynnu y dylai'r sawl a gyflogir i reoli'r gwasanaeth gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Nid yw'r Rheoliadau drafft sy'n destun ymgynghoriad cyhoeddus yn pennu'r terfyn amser ar gyfer cofrestru, ond bwriadwn gynnwys cyfnod pontio er mwyn rhoi cyfle i reolwyr gwasanaethau presennol gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru – hynny yw, tan 31 Mawrth 2025. Bydd hyn yn rhoi cyfnod rhesymol i reolwyr y pedwar gwasanaeth presennol gwblhau'r gofynion cofrestru ac osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol mewn perthynas â methiant darparwyr gwasanaethau i gydymffurfio ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym.

Yn yr un modd, yn achos pobl a gaiff eu cyflogi neu eu contractio gan ddarparwyr gwasanaethau i ddarparu gofal a chymorth i unigolion, mae'r Rheoliadau drafft yn mynnu y dylent gofrestru fel gweithwyr gofal cymdeithasol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Y cyfnod a bennir yn y Rheoliadau drafft ar gyfer cofrestru yw 6 mis o'r dyddiad y bydd yr unigolyn yn dechrau yn ei swydd. Ar ôl ymgysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru, bwriadwn ymestyn y cyfnod hwn – felly, caiff cyflogeion neu weithwyr sy'n gweithio i ddarparwyr presennol gofrestru hyd at 18 mis ar ôl y terfyn amser ar gyfer cofrestru rheolwyr (hynny yw, tan 30 Medi 2026). Estynnwyd y cyfnod hwn gan fod rheolwyr, yn aml, yn gysylltiedig â'r broses ar gyfer cofrestru staff.

**Cwestiwn 9: A yw'r gofynion yn Rhan 9 o'r Rheoliadau drafft yn iawn i ddarparwyr Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig? A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut y gallant gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?**

Mae rhan 9 yn ymdrin â gofynion ynghylch adeiladau, cyfleusterau a chyfarpar.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 10 o ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r gofynion yn Rhan 9. Roedd dau yn tueddu i anghytuno ac nid ymatebodd 13 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Mynegodd un ymatebydd bryderon ynghylch y posibilrwydd y gallai cyfyngu ar ystafelloedd a rennir, hyd at uchafswm o ddau ddisgybl, gael effaith niweidiol ar wasanaethau presennol oherwydd y nifer fechan o ystafelloedd sydd ar gael a'r galw mawr am y gwasanaeth. Mynegodd y grŵp rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys yr ymatebydd hwn, bryderon tebyg. Mewn cyferbyniad, roedd Anabledd Dysgu Cymru yn croesawu ystafelloedd meddiannaeth unigol, a thynnwyd sylw at bwysigrwydd annibyniaeth, rhyddid personol a phreifatrwydd.

Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith nad yw'r canllawiau statudol na'r Rheoliadau drafft yn cyfeirio o gwbl at asesiadau risg rhwymynnau.

Yn ôl un ymatebydd, roedd y gofyniad i'r fangre gael ei "ffitio a'i haddasu fel y bo angen" a'r gofyniad i ystafelloedd gwely fod "yn gyfforddus ar gyfer yr unigolyn" yn oddrychol. Argymhellwyd y dylid canolbwyntio mwy ar ymgynghori â'r bobl ifanc ynglŷn â'r hyn a fyddai'n gyfforddus iddynt hwy, gan sicrhau y byddai'r mater yn cael ei adolygu'n rheolaidd wrth i'w hanghenion newid.

Mynegodd un ymatebydd bryderon manwl ynglŷn â threfniadau diogelwch, gan awgrymu y gallent arwain at fesurau niweidiol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Ein bwriad yw gwella’r ystad adeiledig ac osgoi’r math o lety lle bydd llawer o unigolion yn rhannu’r un ystafell gysgu, heb ddadsefydlogi gwasanaethau presennol. O gofio’r mesurau diogelwch a gynhwysir yn y Rheoliadau drafft a’r ffaith nad ydym yn sôn am gartref yr unigolyn, rydym o’r farn y gellir bod yn fwy hyblyg gyda darparwyr presennol. Rydym yn bwriadu diwygio’r Rheoliadau drafft er mwyn caniatáu i hyd at bedwar o unigolion rannu ystafell wely, cyn belled ag y bodlonir yr amodau yn Rheoliad 38(2). Y bwriad yn hyn o beth yw sicrhau y caiff gwasanaethau sy’n bodoli eisoes eu cynnal ar y lefel bresennol pan fo galw amdanynt. Ceir pedwar o ddarparwyr ar hyn o bryd, a dim ond un o blith y rhain sy’n defnyddio ystafelloedd gwely â phedwar gwely. Bydd y gofyniad sy’n mynnu y dylid cyfyngu nifer yr unigolion i hyd at ddau ym mhob ystafell wely yn dal i fod yn berthnasol i ddarparwyr newydd.

Mae rheoliad drafft 37 (Mangreoedd) yn nodi bod yn rhaid i’r mangreoedd fod yn rhydd rhag peryglon i iechyd a diogelwch unigolion ac unrhyw bersonau eraill a all wynebu risg, i’r graddau y bo hynny’n rhesymol ymarferol. Byddai hyn yn cynnwys amrywiaeth o beryglon ac asesiadau risg perthnasol.

Mae’r canllawiau statudol yn nodi y dylai darparwyr gwasanaethau ystyried dymuniadau a dewisiadau unigolion o ran y modd y caiff eu hystafelloedd eu haddurno a’u dodrefnu, ac y dylai ystafelloedd gwely unigolion weddu i’w hanghenion a’u ffordd o fyw, gan hyrwyddo’u hannibyniaeth.

Mae’r canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau fod â threfniadau diogelwch ar waith er mwyn sicrhau bod yr unigolion yn ddiogel, heb effeithio ar eu hawliau, eu preifatrwydd na’u hurddas. Rhaid i lefel y diogelwch fod yn briodol i’r unigolyn ac i’r gwasanaeth a ddarperir. Nid ydym o’r farn bod angen cyflwyno diwygiad.

**Cwestiwn 10: A yw’r gofynion yn Rhan 10 o’r Rheoliadau drafft yn iawn i ddarparwyr Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig? A yw’r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut y gallant gydymffurfio â’r gofynion yn y rhan hon?**

Mae Rhan 10 yn ymwneud â gofynion ychwanegol lle mae’r safle a ddefnyddir i ddarparu’r gwasanaeth yn syrthio i un o blith tri chategori adeilad “newydd”. Mae’r gofynion ychwanegol yn pennu safonau amgylcheddol mwy penodol, yn cynnwys ystafelloedd en-suite, maint ystafelloedd, a faint o fannau cymunol sydd i’w cael.

**Crynodeb o’r ymatebion**

Roedd 10 o ymatebwyr yn cytuno neu’n tueddu i gytuno â’r gofynion yn Rhan 10. Dewisodd 10 o ymatebwyr beidio ag ymateb i’r cwestiwn hwn.

Gofynnodd un ymatebydd am ragor o eglurder yn y canllawiau statudol ynglŷn â beth yn union sy'n cyfateb i le digonol yn yr awyr agored. Gofynnwyd a fyddai'r lle awyr agored a ddefnyddir gan yr ysgol yn dderbyniol os yw'r lle o amgylch y ddarpariaeth breswyl yn gyfyngedig.

Roedd un ymatebydd o'r farn y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ba mor briodol yw cyfleusterau hamdden dan do, megis ystafelloedd synhwyraidd.

Yn ôl un ymatebydd, efallai na fydd ystafelloedd en-suite yn addas i bob ystafell wely a dywedodd y gallai ystafelloedd arbenigol â chyfarpar arbenigol fod yn fwy buddiol i rai plant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau arfer eu barn eu hunain wrth benderfynu ar y lle awyr agored sy'n angenrheidiol ar gyfer eu gwasanaeth, a bydd sawl ffactor yn dylanwadu ar hyn. Fodd bynnag, os yw lle awyr agored y brif ysgol yn addas, ac os gall yr unigolion sy'n aros yn y gwasanaeth preswyl wneud defnydd ohono, naill ai'n annibynnol a/neu gyda chymorth, rhagwelwn y byddai hyn yn diwallu'r gofynion yn rheoliad 45 (Gofynion ychwanegol – lle yn yr awyr agored).

Mae'r canllawiau statudol ar gyfer rheoliad drafft 17 (Safonau gofal a chymorth – gofynion cyffredinol) yn nodi y dylai darparwyr gwasanaethau ystyried yr effaith bosibl ar unigolion ag amhariad ar y synhwyrau wrth iddynt fynd ati i gynllunio'r amgylchedd. Byddwn yn ystyried cynnwys cyfeiriad at ystafelloedd synhwyraidd yn y canllawiau statudol.

Mae'r rheoliadau'n mynnu y dylai ystafelloedd en-suite fod â basnau dwylo hygyrch. Mae'r canllawiau statudol ar gyfer rheoliad drafft 37 (Mangreoedd) yn nodi y dylai ystafelloedd ymolchi, cawodydd a thoiledau fod â chymhorthion a chyfarpar ar gyfer diwallu anghenion yr unigolyn, er enghraifft canllawiau cydio, basnau ar uchder hygyrch a systemau 'galw am gymorth mewn argyfwng'.

Mae rheoliad 43 yn ymdrin â maint ystafelloedd gwely mewn adeiladau newydd, gan bennu'r lle llawr sylfaenol pan fo'r unigolyn sy'n byw yn yr ystafell wely yn defnyddio cadair olwyn. Bwriadwn ddiwygio Rheoliad drafft 43(2) i gael gwared â'r geiriau "oherwydd natur ei anabledd", er mwyn adlewyrchu'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

**Cwestiwn 11: A yw'r gofynion yn Rhan 11 o'r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer darparwyr Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig? A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut y gallant gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?**

Mae Rhan 11 yn nodi gofynion o ran cyflenwadau, hylendid, iechyd a diogelwch a meddyginiaethau.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 10 o ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r gofynion yn Rhan 11. Roedd un ymatebydd yn tueddu i anghytuno a dewisodd 14 o ymatebwyr beidio ag ymateb i'r cwestiwn hwn.

Yn achos yr ymatebydd a roddodd dic yn y blwch “tueddu i anghytuno”, dywedodd mai’r rhieni/gwarcheidwaid sy’n gyfrifol am ailarchebu meddyginiaethau, yn hytrach na’r darparwr. Mynegodd y grŵp rhanddeiliaid y pryder hwn hefyd. Gofynnodd un ymatebydd a fyddai modd i’r canllawiau drafft gynnwys rhagor o fanylion am reoli meddyginiaethau.

Yn achos y gofyniad yn rheoliad drafft 48 (Hylendid a rheoli heintiau), lle nodir y dylid rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwastraff clinigol yn cael ei waredu’n briodol, dywedodd un ymatebydd na fyddai’r gofyniad hwn yn berthnasol i’w wasanaeth ef gan nad yw’r disgyblion angen gofal personol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Cytunwn nad darparwyr gwasanaethau sy’n gyfrifol am archebu ac ailarchebu meddyginiaethau a byddwn yn diwygio’r Rheoliadau drafft yn unol â hynny.

Yn ôl y canllawiau statudol, “wrth storio a gweinyddu meddyginiaethau, cedwir at ganllawiau cenedlaethol statudol ac anstatudol”. Felly, dylai darparwyr gwasanaethau ymgynefino ag arferion da ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Nid ydym o’r farn bod angen cynnwys rhagor o fanylion yn y canllawiau statudol.

Mae’r canllawiau statudol yn cynnig enghreifftiau o’r modd y gall darparwyr gwasanaethau fodloni gofynion rheoliad drafft 49 (Iechyd a diogelwch), sy’n cynnwys gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel. Rydym yn cydnabod na fydd hyn yn berthnasol i bob gwasanaeth.

**Cwestiwn 12: A yw’r gofynion yn Rhan 12 o’r Rheoliadau drafft yn iawn i ddarparwyr Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig? A yw’r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran sut y gallant gydymffurfio â’r gofynion yn y rhan hon?**

Mae Rhan 12 yn cynnwys gofynion amrywiol ar ddarparwyr gwasanaethau, yn cynnwys gofynion o ran cadw cofnodion a hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth a chyrff eraill. Mae Rhan 12 hefyd yn cynnwys gofynion ynglŷn â pholisi a gweithdrefnau cwyno a pholisi chwythu’r chwiban.

**Crynodeb o’r ymatebion**

Roedd 11 o ymatebwyr yn cytuno neu’n tueddu i gytuno â’r gofynion yn Rhan 12. Dewisodd 14 o ymatebwyr beidio â chyflwyno sylwadau ynglŷn â’r Rhan hon.

Tynnodd un ymatebydd sylw at y gwahaniaeth o ran y cyfnod cadw cofnodion ar gyfer plant ac oedolion, a dywedodd y gall rhai unigolion sy’n aros mewn ysgolion arbennig preswyl fod dros 18 oed.

Gofynnodd un ymatebydd a oedd angen i’r Rheoliadau bennu terfyn amser ar gyfer ymateb i gwynion.

Dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mai cartrefi gofal i oedolion yn unig sy’n berthnasol i’w gylch gwaith, ac na fyddai modd iddo ymchwilio i gwynion ynglŷn â Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Ein bwriad yw sicrhau cysondeb mewn perthynas â chadw cofnodion yn ymwneud ag unigolion sy'n mynychu'r gwasanaeth, ni waeth be fo'u hoedran. Felly, byddwn yn diwygio'r Rheoliadau drafft er mwyn cydweddu'r gofynion â'r gofynion a roddir ar ddarparwyr cartrefi gofal i blant mewn perthynas â chadw cofnodion.

Mae rheoliad drafft 64 (Polisi a gweithdrefn gwyno) yn mynnu y dylai darparwyr gwasanaethau "[r]oi ymateb priodol i berson sy'n gwneud cwyn, os yw'n rhesymol ymarferol cysylltu â'r person hwnnw". Nid ydym yn bwriadu pennu terfyn amser ar gyfer ymateb, oherwydd efallai y bydd angen mwy o amser i ymchwilio i ambell gŵyn. Fodd bynnag, gellir cynnwys manylion o'r fath yn y polisi a'r weithdrefn gwyno.

Byddwn yn dileu'r cyfeiriad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn y canllawiau statudol ar gyfer Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig.

**Cwestiwn 13: A yw'r gofynion yn Rhan 13 o'r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer unigolion cyfrifol Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig? A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol yn ddigonol o ran sut y gallant gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?**

Mae Rhan 13 yn cynnwys y gofynion a roddir ar unigolyn cyfrifol mewn perthynas â rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Mae gan yr unigolyn cyfrifol ddyletswydd gyffredinol i oruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth yn ogystal â dyletswyddau penodol i benodi unigolyn addas i reoli'r gwasanaeth, i roi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli'r gwasanaeth pan fo'r rheolwr yn absennol, ac i ymweld â'r mannau lle darperir y gwasanaeth.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 10 o ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r gofynion yn Rhan 13. Dewisodd 15 o ymatebwyr beidio ag ymateb i'r rhan hon o'r ymgynghoriad.

Ym marn un ymatebydd, roedd y gofynion llywodraethu yn briodol ac yn gyson â gwasanaethau preswyl eraill.

Argymhellodd un ymatebydd y dylid ystyried profiad rheolwyr o weithio gyda phobl ag anghenion dysgu ychwanegol wrth benderfynu ar eu haddasrwydd i fod yn rheolwr.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r canllawiau statudol ar gyfer rheoliad drafft 59 (Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr) yn nodi y dylai unigolion cyfrifol sicrhau bod y rheolwr yn brofiadol o ran rheoli gwasanaethau gofal ac o ran darparu'r math o ofal a ddarperir. Nid ydym o'r farn bod angen cyflwyno diwygiad.

**Cwestiwn 14: A yw'r gofynion yn Rhan 14 o'r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer unigolion cyfrifol Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig? A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol yn ddigonol o ran sut y gallant gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?**

Mae Rhan 14 yn cynnwys y gofynion a roddir ar unigolion cyfrifol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio’n effeithiol. Trwy osod y gofynion hyn ar yr unigolyn cyfrifol, mae’r rheoliadau yn y Rhan hon yn sicrhau bod unigolyn ar lefel briodol uwch oddi mewn i’r sefydliad yn atebol am ansawdd a chydymffurfedd y gwasanaeth. Mae gofyn i’r unigolion cyfrifol roi adroddiadau i ddarparwr y gwasanaeth ynglŷn â digonolrwydd adnoddau ac ynglŷn â materion eraill. Hefyd, mae’n ofynnol i’r unigolyn cyfrifol wneud trefniadau ar gyfer ymgysylltu ag unigolion ac eraill er mwyn i ddarparwr y gwasanaeth allu ystyried eu barn ynglŷn ag ansawdd y gofal a’r cymorth a ddarperir.

**Crynodeb o’r ymatebion**

Roedd 10 o ymatebwyr yn cytuno neu’n tueddu i gytuno â’r gofynion yn Rhan 14. Dewisodd 15 o ymatebwyr beidio ag ymateb i’r rhan hon o’r ymgynghoriad.

Argymhellodd un ymatebydd y dylai’r canllawiau statudol ar gyfer rheoliad drafft 65 (Goruchwylio digonolrwydd adnoddau) gyfeirio at adroddiadau arolygu Estyn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bwriadwn gynnwys cyfeiriad at adroddiadau arolygu Estyn yn y canllawiau statudol ar gyfer rheoliad drafft 65.

**Cwestiwn 15: A yw’r gofynion yn Rhan 15 o’r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer unigolion cyfrifol Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig? A yw’r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol yn ddigonol o ran sut y gallant gydymffurfio â’r gofynion yn y rhan hon?**

Mae Rhan 15 yn nodi’r gofynion a roddir ar yr unigolyn cyfrifol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion eraill, yn cynnwys cofnodi digwyddiadau a chwynion a chadw cofnodion. Hefyd, rhaid i’r unigolyn cyfrifol roi trefniadau ar waith i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau darparwr y gwasanaeth yn cael eu diweddaru.

**Crynodeb o’r ymatebion**

Roedd 10 o ymatebwyr yn cytuno neu’n tueddu i gytuno â’r gofynion yn y Rhan hon. Dewisodd 15 o ymatebwyr beidio ag ymateb i’r cwestiwn hwn.

Argymhellodd un ymatebydd y dylai rheoliad drafft 69 gynnwys rhagor o wybodaeth am ofynion yn ymwneud â chadw cofnodion.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai staff gael codau mynediad unigol i ddiweddaru cofnodion er mwyn dangos pa aelod o staff a wnaeth y newidiadau. Byddai hyn yn arbennig o fuddiol pe bai staff yr elfen breswyl a hefyd staff yr elfen addysgol oddi mewn i’r ddarpariaeth yn diweddaru cofnodion.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae rheoliad drafft 69 yn ymwneud â’r ddyletswydd i sicrhau bod systemau ar waith ar gyfer cadw cofnodion. Mae rheoliad drafft 51 yn gosod gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau i gadw a chynnal y cofnodion a nodir yn Atodlen 2. O ran y rhestr o gofnodion y dylai darparwyr gwasanaethau ei chadw, rydym o’r farn ei bod yn

gymesur, yn briodol ac yn gyson â’r gofynion ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig eraill.

Mae gan ddarparwyr gwasanaethau ddisgresiwn i roi eu trefniadau a’u systemau gweithredol eu hunain ar waith wrth ddiweddaru cofnodion ar gyfer y gwasanaeth. Nid ydym yn bwriadu mandadu hyn yn y Rheoliadau drafft.

**Cwestiwn 16: A yw’r gofynion yn Rhan 16 o’r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer unigolion cyfrifol Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig? A yw’r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr ac unigolion cyfrifol yn ddigonol o ran sut y gallant gydymffurfio â’r gofynion yn y rhan hon?**

Mae Rhan 16 yn nodi’r gofynion a roddir ar yr unigolyn cyfrifol o ran monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a’r cymorth a ddarperir, yn cynnwys rhoi adroddiad i ddarparwr y gwasanaeth.

**Crynodeb o ymatebion**

Roedd 10 o ymatebwyr yn cytuno bod y gofynion yn Rhan 16 yn iawn ar gyfer unigolion cyfrifol Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig. Dewisodd 15 o ymatebwyr beidio ag ymateb i’r cwestiwn hwn.

Argymhellodd un ymatebydd y gellid cryfhau’r canllawiau ar gyfer rheoliad drafft 71 (Adolygiad o ansawdd y gofal) trwy gynnwys cyfeiriad at yr unigolyn cyfrifol yn monitro canlyniadau adroddiadau arolygu Estyn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae’r canllawiau statudol eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i’r unigolyn cyfrifol sicrhau bod trefniadau addas ar waith i asesu, monitro a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth, yn cynnwys canlyniadau unrhyw adroddiad arolygu gan reoleiddiwr y gwasanaeth. Ni all y canllawiau statudol osod gofyniad ar unigolion cyfrifol i fonitro canlyniadau adroddiadau arolygu Estyn mewn perthynas â’r ysgol, ond cytunwn y dylid ei ystyried. Byddwn yn ystyried diwygio’r canllawiau statudol.

**Cwestiwn 17: A yw’r gofynion yn Rhan 17 o’r Rheoliadau drafft yn iawn ar gyfer unigolion cyfrifol Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig? A yw’r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr ac unigolion cyfrifol yn ddigonol o ran sut y gallant gydymffurfio â’r gofynion yn y rhan hon?**

Mae Rhan 17 yn nodi gofynion eraill a roddir ar yr unigolyn cyfrifol, yn cynnwys gofynion o ran gwneud hysbysiadau penodol i reoleiddiwr y gwasanaeth, a gynhwysir yn Atodlen 4.

**Crynodeb o’r ymatebion**

Roedd 10 o ymatebwyr yn cytuno bod y gofynion yn Rhan 17 yn iawn ar gyfer unigolion cyfrifol Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig. Dewisodd 15 o ymatebwyr beidio ag ymateb i’r cwestiwn hwn.

Yn ôl dau ymatebydd, roedd yna ddisgwyliadau clir a phriodol ar gyfer rôl yr unigolyn cyfrifol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn croesawu'r sylwadau cadarnhaol a gyflwynwyd ynglŷn â Rhan 17 o'r Rheoliadau drafft a'r canllawiau statudol.

**Cwestiwn 18:** A yw'r ffordd yr ymdriniwyd â throseddau yn y Rheoliadau drafft yn ddigonol ac yn gymesur? Mae Rhan 18 yn ymdrin â throseddau.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 11 o ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r gofynion yn Rhan 18. Dewisodd 14 o bobl beidio ag ymateb i'r cwestiwn hwn.

Yn ôl tri o ymatebwyr, mae'r dull yn ddigonol ac yn briodol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn croesawu'r sylwadau cadarnhaol a gyflwynwyd ynglŷn â Rhan 18 o'r Rheoliadau drafft a'r canllawiau statudol.

**Cwestiwn 19:** A yw'r gofynion a osodir ar bersonau penodedig a chynrychiolwyr personol yn rhesymol?

Mae Rhan 19 yn nodi gofynion penodol sy'n berthnasol pan fo darparwr y gwasanaeth yn ansolfent neu pan fo darparwr y gwasanaeth yn unigolyn sydd wedi marw.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd naw o ymatebwyr yn cytuno â'r gofynion yn Rhan 19. Dewisodd 16 o ymatebwyr beidio ag ymateb. Nododd tri o ymatebwyr na fyddai'r Rhan hon yn berthnasol i ysgolion arbennig preswyl presennol, a ddarperir gan awdurdodau lleol, ond roeddynt yn croesawu'r gofyniad ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r farchnad yn y dyfodol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nodwn y sylwadau ynglŷn â Rhan 19 o'r Rheoliadau drafft a'r canllawiau statudol.

**Cwestiwn 20: A yw'r amgylchiadau pan all unigolion cyfrifol gael eu penodi gan Weinidogion Cymru, yn hytrach na'r darparwr gwasanaeth, yn ddigonol ac yn briodol?**

Mae Rhan 20 yn nodi o dan ba amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru (yn hytrach na darparwr y gwasanaeth) ddynodi unigolyn i fod yn unigolyn cyfrifol, er gwaethaf methiant i fodloni gofynion cymhwystra adran 21(2) o'r Ddeddf mewn perthynas â'r unigolyn.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd naw o ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r cynigion yn Rhan 20. Roedd un ymatebydd yn tueddu i anghytuno ac nid ymatebodd 15 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Yn achos yr ymatebydd a oedd yn tueddu i anghytuno, dywedodd y byddai’n rhaid i unrhyw unigolyn cyfrifol fod yn rhywun a gâi ei gyflogi gan yr ysgol neu’r awdurdod lleol, ac o’r herwydd na fyddai angen i Lywodraeth Cymru ymhél â’r mater.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Er bod y Rheoliadau’n cyfeirio at ddynodi unigolyn cyfrifol gan Weinidogion Cymru, yn ymarferol Arolygiaeth Gofal Cymru sy’n mynd i’r afael â’r swyddogaeth hon. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru eisoes yn dynodi pob unigolyn cyfrifol fel rhan o’i phroses gofrestru. Mae’r gofyniad yn Rhan 20 yn caniatáu i Arolygiaeth Gofal Cymru gymeradwyo’r arfer o ddynodi unigolyn cyfrifol er gwaethaf y methiant i fodloni’r gofynion cymhwystra a nodir yn adran 21(2) o’r Ddeddf. Dim ond pan fo darparwr y gwasanaeth yn unigolyn (er enghraifft, busnes bach) y mae’r rheoliad hwn yn berthnasol. Gan fod yr ysgolion arbennig preswyl presennol yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol, ni fyddai’r rheoliad hwn yn berthnasol iddynt hwy.

**Cwestiwn 21: A yw’r dull a gynigir ar gyfer diwygio’r rheoliadau sy’n ymwneud â chofrestru gwasanaethau, datganiadau blynyddol a hysbysiadau cosb, er mwyn cynnwys Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig, yn ddigonol ac yn gymesur?**

**Crynodeb o’r ymatebion**

Roedd 10 o ymatebwyr yn cytuno bod y gofynion yn Rhan 21 yn ddigonol ac yn gymesur. Dewisodd 15 o ymatebwyr beidio ag ymateb i’r Rhan hon.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Byddwn yn dwyn ymlaen Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2023 a fydd yn diweddaru’r rheoliadau sy’n ymwneud â chofrestru gwasanaethau gydag Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn cynnwys Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig a’r gofynion yn y datganiad o ddiben. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, bydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2023.

## <u>Cydraddoldebau</u>

**Cwestiwn 22: A ydych yn meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig?**

Dyma’r nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

**Crynodeb o’r ymatebion**

Atebwyd y cwestiwn hwn gan 11 o ymatebwyr. Dewisodd 14 o ymatebwyr beidio ag ymateb.

Dywedodd wyth o ymatebwyr y byddai’r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc ag anableddau oherwydd y trefniadau llywodraethu a diogelu cryfach, yn ogystal â’r gofynion o ran cyfarpar, adnoddau a llety. Yn ôl un ymatebydd, roedd y

rheoliadau'n gynhwysol ac yn canolbwyntio ar unigolion. Roedd dau ymatebydd o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol nac effaith negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig; yn ôl un ymatebydd, mae ysgolion arbennig preswyl yn mynd ati eisoes i ddilyn y gofynion a gynhwysir yn y Rheoliadau drafft.

**Cwestiwn 23: A ydych yn credu y bydd cynigion yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig?**

**Crynodeb o'r ymatebion**

Cafwyd 10 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Dewisodd 15 o ymatebwyr beidio ag ymateb.

O blith y 10 a ymatebodd, roedd saith o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Gan nad oedd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, roedd un ymatebydd o'r farn ei bod yn anodd pennu'r effeithiau. Dywedodd dau o ymatebwyr nad oeddynt yn credu y byddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith gadarnhaol nac unrhyw effaith negyddol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiynau 22 a 23**

Rydym yn croesawu'r adborth ar y modd y gallai'r cynigion effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Ystyriwyd y sylwadau fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y cynigion hyn, a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Y Gymraeg**

**Cwestiwn 24: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar yr iaith Gymraeg.**

**Crynodeb o'r ymatebion**

Cafwyd wyth ymateb i'r cwestiwn hwn. Dewisodd 17 o ymatebwyr beidio ag ymateb i'r cwestiwn.

Argymhellodd un ymatebydd y dylai Rhan 2 o'r Rheoliadau gynnwys gofyniad i ddarparwyr ddangos ymrwymiad i Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, sef Cymraeg 2050.

Yn ôl ymatebydd arall, rhaid i ddarparwyr fod yn greadigol ynglŷn â'r ffordd y maent yn hyrwyddo ac yn cyflwyno'r Gymraeg oddi mewn i'r gwasanaeth, er mwyn i unigolion allu cael y gwasanaeth yn eu dewis iaith.

Roedd un ymatebydd o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r Gymraeg yn hollbwysig i ddiwylliant a threftadaeth Cymru, a hefyd i fywydau beunyddiol llawer o drigolion Cymru, a gwyddom pa mor bwysig yw galluogi unigolion i gael gofal a chymorth yn eu dewis iaith.

Datblygwyd y cynigion hyn o fewn cyd-destun Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, ac mae'r Rheoliadau drafft yn sicrhau y bydd darparwyr yn cymryd camau rhesymol i ddiwallu anghenion iaith unigolion, fel y nodir yn Rheoliad 20 (Iaith a chyfathrebu). Fel y nodir yn y canllawiau statudol, 'bydd darparwyr gwasanaethau'n cynnig gwasanaeth yn Gymraeg i unigolion sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, neu'n gweithio tuag at gynnig hynny.'

Nid ydym wedi ailadrodd deddfwriaethau na chanllawiau penodol eraill yn y canllawiau statudol hyn, ac ychwaith nid ydym wedi cynnwys dolenni sy'n arwain at bethau o'r fath, oherwydd bydd y pethau hynny'n siŵr o ddyddio. O'r herwydd, ni fyddwn yn ychwanegu dolen sy'n arwain at Strategaeth y Gymraeg.

Rydym yn croesawu ac yn annog creadigrwydd ymhlith darparwyr gwasanaethau o ran diwallu anghenion iaith unigolion. Dylai darparwyr fod yn ymwybodol o adnoddau a luniwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n anelu at gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith: Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle | Gofal Cymdeithasol Cymru.

**Adran arall**

**Rhoddodd yr adran hon gyfle i bobl grybwyll materion eraill nad ymdriniwyd yn benodol â nhw yn yr ymgynghoriad.**

**Crynodeb o'r ymatebion**

Ymatebodd pedwar o ymatebwyr i'r adran hon. Dewisodd 21 o ymatebwyr beidio ag ymateb.

Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol: ystyried trefniadau trawsffiniol, sut y mae'r arfer o reoleiddio ysgolion annibynnol yn ategu'r arfer o reoleiddio Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig pan fônt yn ymwneud â'r un darparwr, y rhyngwyneb rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn, yn cynnwys pa reoleiddiwr a fydd yn cynnig arweiniad ar orfodi, ynghyd â chymwysterau a chofrestriad staff.

Gan nad yw'r fframwaith Amddifadu o Ryddid yn berthnasol i blant, gofynnodd un ymatebydd a ddylid rhoi mesurau diogelu ychwanegol ar waith ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn meddu ar alluedd i gydsynio i gael gofal a chymorth yn y gwasanaethau hyn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae trefniadau trawsffiniol yn bosibl a chânt eu cydnabod yn y Rheoliadau drafft wrth ddiffinio "awdurdod lleoli".

Ar hyn o bryd, mae'r holl enghreifftiau o Wasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig yn wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol; fodd bynnag, lluniwyd y rheoliadau mewn modd a fydd yn darparu ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r farchnad.

Mater gweithredol i Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn yw'r rhyngwyneb rhwng y ddwy arolygiaeth, a bydd y ddau sefydliad yn gweithredu o dan y fframwaith cyfreithiol perthnasol. Ar hyn o bryd, mae Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn yn arolygu ysgolion arbennig preswyl yn annibynnol ar ei gilydd. Efallai y cynhelir arolygiadau ar y cyd pan fo gwasanaethau yn destun pryder. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru, fel rheoleiddiwr y gwasanaeth, yn cynnig arweiniad ar gamau gorfodi a wneir o dan Ddeddf 2016 i'r graddau y bo hynny'n berthnasol i'r gwasanaeth preswyl.

Ymdrinnir â'r gofynion o ran y staff yn Rhan 8 o'r Rheoliadau drafft.

Er nad yw fframwaith y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn berthnasol i unigolion o dan 18 oed, nid yw hyn yn golygu y gellir amddifadu plant sy'n mynychu'r gwasanaeth hwn o'u rhyddid. Mae rheoliad drafft 28 (Amddifadu o ryddid) yn nodi'n glir na ddylid amddifadu unigolion o'u rhyddid at ddibenion derbyn gofal a chymorth, heb awdurdod cyfreithlon. Nid ydym yn ystyried cyflwyno rhagor o newidiadau i'r rheoliadau.

### 2.1.2 – Pennod 2 – Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd (y "Rheoliadau Darparwyr Gwasanaethau").

Mae'r Rheoliadau Darparwyr Gwasanaethau yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol gwasanaethau cartrefi gofal (yn cynnwys cartrefi gofal i blant), gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys gofynion yn ymwneud â safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu.

**Cwestiwn 25: A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddiwygio'r Rheoliadau Darparwyr Gwasanaethau i sicrhau bod gofynion Rhan 13 yn berthnasol pan fydd ystafelloedd gwely ychwanegol (gan gynnwys ystafelloedd wedi'u haddasu) yn cael eu hychwanegu ar ôl y cofrestriad cychwynnol?**

### Crynodeb o'r ymatebion

Roedd 16 o ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r cynnig y dylid cau'r bwlch yn y Rheoliadau Darparwyr Gwasanaethau er mwyn sicrhau, pe bai darparwr yn amrywio ei gofrestriad er mwyn ychwanegu ystafelloedd gwely ychwanegol dros y trothwy 4 ystafell wely, y byddai gan y gwasanaeth estynedig – yn cynnwys yr ystafell wely/ystafelloedd gwely ychwanegol ac ardaloedd cymunol y cartref – fannau a chyfleusterau addas i ddiwallu anghenion yr holl unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Dewisodd naw o ymatebwyr beidio ag ymateb i'r rhan hon o'r ymgynghoriad.

Dywedodd un ymatebydd y gallai'r rheoliad effeithio ar rai cartrefi llai, gan eu hatal rhag ehangu pe na bai modd iddynt fodloni'r gofynion amgylcheddol, megis darparu cyfleusterau en-suite.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r Rheoliadau Darparwyr Gwasanaethau eisoes yn cynnwys eithriad ar gyfer cartrefi gofal llai (rhai â 4 neu lai o ystafelloedd gwely), gan gydnabod bod angen sicrhau na fydd y gofynion ychwanegol hyn yn cael effaith niweidiol ar naws cartrefol cartrefi llai. Fodd bynnag, pe bai gwasanaethau llai yn dymuno ehangu uwchlaw'r trothwy 4 ystafell wely, byddai'n briodol iddynt fodloni anghenion Rhan 13 o'r Rheoliadau Darparwyr Gwasanaethau, sy'n cyd-fynd â'r bwriad polisi gwreiddiol. O'r herwydd nid ydym yn bwriadu cyflwyno unrhyw newidiadau i'r cynnig. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, bydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 31 Mawrth 2024.

Byddwn hefyd yn gwneud yn fawr o'r cyfle i gyflwyno mân ddiwygiadau i'r Rheoliadau Darparwyr Gwasanaethau.

**Cwestiwn 26: A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 2(3) i sicrhau nad yw gwasanaethau Gofal Canolraddol awdurdodau lleol yn cael eu trin fel gwasanaeth cartref gofal er gwaethaf Atodlen 1 o Ddeddf 2016?**

Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'n cynnig i barhau i reoleiddio gwasanaethau gofal canolradd a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol ac a ddarperir mewn llety gofal ychwanegol, fel gwasanaethau cymorth cartref, yn hytrach na mynnu eu bod yn cofrestru fel gwasanaethau cartrefi gofal.

I gymhwyso ar gyfer yr eithriad hwn, cynigiwn y canlynol:

- bod yn rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu'r gwasanaeth.
- bod yn rhaid i'r awdurdod lleol fod yn berchen ar y llety neu brydlesu'r llety.
- bod elfen 'cymorth cartref' y gwasanaeth yn cael ei darparu gan wasanaeth cymorth cartref cofrestredig yr awdurdod lleol.
- bod y gwasanaeth yn cael ei gyfyngu i bedwar mis ar gyfer pob unigolyn.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 13 o ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r cynnig hwn. Roedd dau yn tueddu i anghytuno ac roedd un yn anghytuno. Nid atebwyd y cwestiwn hwn gan naw o ymatebwyr.

Yn achos un ymatebydd a roddodd dic yn y blwch "tueddu i anghytuno", mynegwyd pryder y byddai'r eithriad yn galluogi awdurdodau lleol i redeg gwasanaethau cam-i-fyny / cam-i-lawr mewn cystadleuaeth â'r sector cartrefi gofal – rhywbeth a allai arwain at gau cartrefi.

Yn ôl yr ymatebydd arall a oedd yn tueddu i anghytuno, dylid parhau i reoleiddio a monitro'r gwasanaethau hyn, oherwydd gellid rhoi pobl agored i niwed yn y gwasanaethau o dan sylw am hyd at 4 mis.

Yn ôl yr ymatebydd a oedd yn anghytuno, dywedodd y dylid rhoi'r Rheoliadau ar waith mewn ffordd deg ar draws pob lleoliad gofal – rhai tymor byr, canolradd a thymor hir.

Holodd ymatebydd arall pam mai i awdurdodau lleol yn unig y mae'r eithriad yn berthnasol, ac nid i ddarparwyr nid-er-elw, oherwydd byddai'r hyblygrwydd ehangach hwn yn ategu nodau'r llywodraeth i ailgydbwyso'r farchnad a chamu ymlaen â'r fenter 'Ymhellach, Yn Gyflymach'.

Awgrymwyd y dylid ychwanegu ystod oedran er mwyn sicrhau na fyddai plant yn cael eu lletya o dan amgylchiadau pan fyddai'r awdurdod lleol yn rhiant corfforaethol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r gwasanaethau hyn yn debycach i wasanaethau gofal ychwanegol a chânt eu rheoleiddio eisoes fel gwasanaethau cymorth cartref. Ein bwriad yw sicrhau y bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu rheoleiddio mewn ffordd briodol a chymesur. Cânt eu darparu'n rhad ac am ddim gan awdurdodau lleol, at ddiben penodol ac am amser cyfyngedig, er mwyn pontio'r cyfnod rhwng yr adeg y caiff unigolion eu rhyddhau o'r ysbyty a'r adeg y cânt ddychwelyd adref pan na fo gofal cymunedol priodol ar gael. Nid ydym yn rhagweld y bydd hyn yn effeithio ar wasanaethau cartrefi gofal presennol.

Trwy barhau i reoleiddio'r gwasanaethau hyn fel gwasanaethau gofal cartref, bydd modd rheoleiddio a goruchwylio ar lefel briodol.

Bydd gwasanaethau cartrefi gofal sy'n darparu gofal seibiant yn parhau i gael eu rheoleiddio fel gwasanaethau cartrefi gofal.

Ni fwriedir darparu'r gwasanaethau hyn i blant a bydd y Rheoliadau drafft yn cael eu diwygio er mwyn nodi hyn yn glir.

**2.1.3 – Pennod 3 – Rheoliadau drafft i'w gwneud yn ofynnol i gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau**

Rheoliadau'r Gofrestr o Ddarparwyr Gwasanaethau (Gwybodaeth Ragnodedig a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

**Cwestiwn 27: A ydych yn cytuno â'r gofynion yn y Rheoliadau drafft i'w gwneud yn ofyniad gorfodol i Weinidogion Cymru (yn ymarferol, Arolygiaeth Gofal Cymru) gyhoeddi rhif ffôn a chyfeiriad e-bost ar gyfer pob gwasanaeth?**

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 15 o ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r Rheoliadau drafft. Roedd un yn tueddu i anghytuno. Nid atebwyd y cwestiwn hwn gan naw o ymatebwyr.

Roedd yr ymatebydd a oedd yn tueddu i anghytuno yn deall bod angen sicrhau y gallai pobl gysylltu'n ddidrafferth, ond roedd ganddo bryderon ynglŷn â rhannu manylion cyswllt personol oherwydd y posibilrwydd y gallai defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd ymddwyn mewn modd annerbyniol. Hefyd, roedd yn bryderus ynglŷn ag amgylchiadau pan na ddylid rhannu manylion cyswllt oherwydd rhesymau diogelu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r Rheoliadau drafft yn nodi'n glir mai manylion cyswllt y gwasanaeth yn unig sy'n berthnasol i'r gofyniad hwn, yn hytrach na manylion cyswllt personol unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae yna ddigon o amser i wasanaethau newid y manylion cyswllt a chynnwys manylion mwy generig cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Nid ydym yn bwriadu newid y rheoliadau drafft. Cynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol wrth ddatblygu'r Rheoliadau drafft hyn a bydd yr asesiad hwnnw'n cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Rheoliadau.

Oherwydd amseru'r broses datganiadau blynyddol, sef y dull y bydd darparwyr presennol yn ei ddefnyddio i gyflwyno'u manylion cyswllt i Arolygiaeth Gofal Cymru, bwriadwn roi 9 mis yn ychwaneg (o 31 Rhagfyr 2023, pan ddaw'r rheoliadau i rym) ar gyfer cyhoeddi'r manylion cyswllt ychwanegol ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau.

**2.1.4 – Pennod 4 – Diwygiadau arfaethedig i'r canllawiau statudol i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ar fodloni'r rheoliadau safonau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd (fersiwn 2, Ebrill 2019).**

**Cwestiwn 28: A ydych yn cytuno â'r diwygiadau i'r Canllawiau Statudol i Ddarparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol ynghylch bodloni'r Rheoliadau Safonau Gwasanaeth?**

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 14 o ymatebwyr yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r canllawiau statudol. Cyflwynodd un ymatebydd sylwadau, ond ni roddodd dic mewn unrhyw flwch. Dewisodd 10 o ymatebwyr beidio ag ymateb i'r rhan hon o'r ymgynghoriad.

Rhoddodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru adborth manwl, gan gynnig sawl awgrym yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion, yn cynnwys:

- hawliau;
- cydymffurfio â chyfraith defnyddwyr (yn enwedig o ran ffioedd ac amgylchiadau pan gaiff cytundebau gwasanaeth eu terfynu);
- cynorthwyo preswylwyr i herio polisïau a gweithdrefnau;
- rhoi hyfforddiant i'r staff yn ymwneud â datrys gwrthdaro;
- cyfathrebu â theuluoedd pan fo preswylwyr yn cael gofal lliniarol.

Hefyd, roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o'r farn nad oedd y Rhan hon o'r ymgynghoriad wedi cael amlygrwydd dyladwy o gymharu â Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig.

Yn ôl un ymatebydd, roedd yn hoffi'r pwyslais ar ddewis, llais a rheolaeth, yn ogystal â diwylliannau arwain cadarnhaol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn gwerthfawrogi'r ystyriaeth fanwl a roddwyd i'r canllawiau statudol.

Rydym wedi ystyried yr holl sylwadau'n drylwyr a chynigiwn ddiwygio'r canllawiau statudol er mwyn cryfhau ac egluro meysydd yn ymwneud â'r canlynol:

- creu diwylliant cadarnhaol a thosturiol;
- ategu dull sy'n seiliedig ar hawliau;
- ffioedd a chontractau;
- cynorthwyo pobl i dderbyn ymwelwyr a mynd allan;
- gofal lliniarol.

Rydym wedi ceisio cyngor ynglŷn â chynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn y canllawiau statudol. Mae'r DU yn un o lofnodwyr y Confensiwn. Mae'r Confensiwn yn pennu hawliau datganiadol sy'n wahanol i gyfreithiau sy'n rhoi pwerau y gellir eu gorfodi fel rhan o system gyfreithiol. Caiff rhai o'r hawliau a'r mesurau diogelu a nodir yn y Confensiwn eu cynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Bwriad y canllawiau statudol yw egluro a symleiddio'r gofynion a nodir yn y rheoliadau. Bwriadwn gael gwared â'r cyfeiriad.

Pan fo newidiadau wedi'u cyflwyno i'r canllawiau statudol ar gyfer Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig, adlewyrchwyd y newidiadau hynny yn y canllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd, lle y bo'n briodol.

Ymddiheurwn am y ffaith fod y pennawd ar y dudalen we yn pwysleisio'r Rheoliadau ar gyfer Gwasanaethau Ysgolion Arbennig ar draul agweddau eraill ar yr ymgynghoriad. Ni wnaethpwyd hyn yn fwriadol. Fe wnaethom hysbysu'r holl randdeiliaid allweddol ynglŷn â'r ymgynghoriad trwy anfon e-bost atynt. Hefyd, fe wnaethom ryddhau postiadau ar wahân ar y cyfryngau cymdeithasol, a oedd yn canolbwyntio ar wahanol agweddau ar yr ymgynghoriad. Rydym wedi nodi'r adborth hwn ar gyfer ymgynghoriadau a gynhelir yn y dyfodol.

## <u>Adran 3</u>

### Y Camau Nesaf

<u>Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig</u>

Rydym wedi diwygio'r amserlen ar gyfer y Rheoliadau ac ar gyfer cyhoeddi'r canllawiau statudol.

Bydd Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023, sy'n diffinio'r gwasanaeth rheoleiddiedig newydd, a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2023, sy'n diwygio'r Rheoliadau Cofrestru, yn cael eu dwyn gerbron y Senedd ar 7 Tachwedd 2023. Yn amodol ar gytundeb y Senedd, byddant yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2023.

Bydd Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024 yn cael eu dwyn gerbron y

Senedd ddim hwyrach nag 16 Ionawr 2024 ac, yn amodol ar gytundeb y Senedd, byddant yn dod i rym ar 29 Chwefror 2024. Byddant yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau amrywiol i gwblhau'r fframwaith rheoleiddio.

Bydd yr holl ddogfennau drafft ar gael ar wefan y Senedd: Is-ddeddfwriaeth (senedd.cymru)

Bydd y canllawiau statudol ar gyfer Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig yn cael eu cyhoeddi ar 29 Chwefror 2024.

Bydd y Rheoliadau a'r canllawiau statudol yn berthnasol i Wasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig ar ôl i Arolygiaeth Gofal Cymru wneud penderfyniad ynglŷn â cheisiadau cofrestru. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn derbyn ceisiadau o 1 Mawrth 2024. Bydd modd i ddarparwyr gyflwyno cais i gofrestru eu gwasanaeth tan 1 Gorffennaf 2024. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r ceisiadau o fis Ebrill 2024 ymlaen. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn cysylltu â darparwyr presennol.

Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

Bydd y Rheoliadau drafft yn cael eu dwyn gerbron y Senedd ar 30 Ionawr 2024 a byddant yn dod i rym ar 31 Mawrth 2024, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.

Bydd y canllawiau statudol diweddaraf ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd yn cael eu cyhoeddi ar 31 Mawrth 2024.

Rheoliadau'r Gofrestr o Ddarparwyr Gwasanaethau (Gwybodaeth Ragnodedig a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

Bydd y Rheoliadau drafft sy'n rhagnodi gwybodaeth ychwanegol y dylid ei chynnwys ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau yn cael eu dwyn gerbron y Senedd ar 14 Tachwedd 2023. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, byddant yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2023. Ni fydd yn ofynnol i Arolygiaeth Gofal Cymru gyhoeddi holl fanylion cyswllt y gwasanaethau tan 30 Medi 2024.

## Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Rhestr o'r ymatebwyr a lenwodd y ffurflen ac a oedd yn fodlon inni rannu eu manylion:

1. Rachel Von Borstel, aelod o'r cyhoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
2. Tîm Partneriaeth Ranbarthol Gwent
3. Susan Dinsdale, aelod o'r cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Teuluoedd a Therapïau
4. Anabledd Dysgu Cymru
5. Cyngor y Gweithlu Addysg
6. Estyn
7. Cyngor Abertawe – Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Cymdeithasol
8. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Nyrsio Plant Cymunedol
9. Cyngor Sir Ceredigion

10. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
11. Cartrefi Cymunedol Cymru
12. Neil Elliott, aelod o’r cyhoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
13. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
14. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
15. Comisiynydd Plant Cymru
16. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Nid atebwyd y cwestiwn gan chwech o ymatebwyr a gwrthododd tri o ymatebwyr roi caniatâd inni rannu eu manylion.